OFFICE OF FAIR TRADING

ts trading standards institute

Penaethiaid Safonau Masnach Cymru
WHoTS
Wales Heads of Trading Standards

iechyd

torcyfraith ac anrhefn

yr amgylchedd

datblygiad economaidd

addysg i gwsmeriaid

GWASANAETHAU SAFONAU MASNACH AWDURDODAU LLEOL – LLAWLYFR I GYNGHORWYR

Cynnwys

Rhagair **2**

Cyflwyniad **3**

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn gwella lechyd Cyhoeddus **4**

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn lleihau Torcyfraith ac Anrhefn **6**

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn diogelu'r Amgylchedd **9**

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn hybu Datblygiad Economaidd **11**

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn Addysgu ac yn Ymbweru Defnyddwyr **13**

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol a Blaenoriaethu **15**

Sefydliadau Defnyddiol **16**

Rhagair

Annwyl Gynghorydd,

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau lleol yn chwarae rhan hanfodol mewn gwella iechyd a lles, ynghŷd â hybu ffyniant economaidd dinasyddion a busnesau ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn bartneriaid allweddol i'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT). Gyda'n gilydd rydym yn gweithredu cyfundrefn o gyfraith defnyddwyr sydd wrth wraidd polisi economaidd y Deyrnas Unedig. Eto i gyd, ni ddeellir ac ni werthfawrogir cyfraniad Gwasanaethau Safonau Masnach bob tro, hyd yn oed o fewn awdurdodau lleol.

Ers Rhagfyr 2005, mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi bod yn gyfrifol am hyrwyddo Gwasanaethau Safonau Masnach a darparu arweinyddiaeth iddynt ym maes rheoleiddio. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, yn gynnar yn 2006 fe wnaethom ymgynghori'n eang i geisio deall beth yn nhŷb Gwasanaethau Safonau Masnach oedd y materion mwyaf pwysig a heriol oedd yn effeithio ar eu gallu i gynnig gwasanaethau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Roedd yr ymgynghoriad hwnnw yn cynnwys deialog adeiladol iawn gyda phartïon â diddordeb yng Nghymru, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Safonau Masnach, er mwyn sicrhau ein bod wedi cymryd i lawn ystyriaeth y gwahaniaethau rhanbarthol a materion o diddordeb penodol i Gymru.

Y prif faterion a nodwyd oedd y rhai hynny yn ymwneud ag ariannu, recriwtio a chadw staff, lefelau o staffio sy'n angenrheidiol i roi cyngor i gwsmeriaid a busnesau, ynghyd â phroffil Gwasanaethau Safonau Masnach o fewn awdurdodau lleol. Fel canlyniad, rydym yn cydweithio ar raglen o weithredu ar y cŷd i wella'r materion dan sylw.

Cynnyrch un o'r ffrwd-weithiau o fewn y rhaglen hon yw'r llyfryn hwn. Fe'i cynlluniwyd i amlygu'r cyfraniad hanfodol mae Gwasanaethau

Safonau Masnach yng Nghymru yn ei wneud i iechyd, diogelwch, lles, a ffyniant economaidd dinasyddion a busnesau ac i roi darlun ehangach i chi o'u rôl.

Yn ddiffuant,

Philip Collins
Cadeirydd
Swyddfa Masnachu Teg

Cyflwyniad

Beth yw gwaith Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol?

Gwnaeth adolygiad diweddar gan y Llywodraeth gydnabod mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol (ynghyd â Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd) yw'r ymgyrch orfodaeth fwyaf yn Lloegr. Fe aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud:

'Mae gwasanaethau rheolaeth awdurdodau lleol yn chwarae rôl hanfodol yn eu cymunedau lleol. Yn nhermau dylanwad ar fusnes a chyflwyno amcanion rheoliaethol i'r Llywodraeth, ni ddylid diystyru pwysigrwydd y gwasanaethau yma.

…maent yn gwasanaethu fel ffynhonell allweddol o gyngor i fusnes, yn enwedig busnesau bach. Maent yn cyflwyno amcanion rheoliaethol cenedlaethol a lleol, gan gefnogi cyflwyno amrediad eang o bolisiau yn y broses.'

Mae yna dros 200 o Wasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Tra eu bod i gyd yn cynnig yr un math o wasanaethau craidd drwy ofalu ar ôl defnyddwyr a helpu ac annog busnesau sy'n gwethredu'n gyfreithlon, maent yn amrywio o ran amrediad eu gwasanaethau a'r modd y maent yn eu cyflawni.

Mae'r cyfraniad a wnant i iechyd, diogelwch a budd economaidd yn aml yn cael ei gymryd yn ganiataol. Eto i gyd, does dim ond yn rhaid i chi ystyried y storiau 'newyddion da' ynglŷn â gwaith Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol i werthawrogi eu gwerth.

Fel cynghorydd, mae gennych ddylanwad pwerus ar y cyfraniad hwn. Mae'r llawlyfr yma wedi ei gynllunio i'ch cynorthwyo i

ddefnyddio'r amrediad o weithgareddau a gynigir gan Wasanaethau Safonau Masnach eich Awdurdod Lleol.

Bydd pob pennod yn eich helpu i ddeall sut mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn:

- chwarae rhan hanfodol i warchod y cyhoedd ac i hyrwyddo masnachu teg
- cynnig cymorth a chyngor i gwsmeriaid a busnesau

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn gwella lechyd Cyhoeddus

iechyd

Mae afiechyd o ganlyniad i ddiet gwael yn costio £6bn y flwyddyn i'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus – tair gwaith yn fwy nac ysmygu' (BBC: 2007)

Oeddech chi'n meddwl mae gwaith Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol o safbwynt iechyd cyhoeddus oedd rhwystro gwerthiant tobaco, alcohol a glud i blant dan oedran? Mi fyddech yn iawn, ond golyga llawer rhagor na hyn! Mae Swyddogion Safonau Masnach yn gwneud cyfraniad sylweddol i agweddau eraill o iechyd a lles mewn modd na fyddech yn meddwl amdanynt yn union.

Yn 2003 fe gomisiynodd y Sefydliad Safonau Masnach adroddiad o'r enw '*Making the Connection*'. Casgliad yr adroddiad hwn oedd fod Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol **yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i dargedau yn ymwneud â disgwyliad einioes, ynghyd â lleihau afiechyd, damweiniau a phroblemau iechyd meddwl.**

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am y berthynas rhwng diet ac iechyd ac mae'r cyfryngau wedi rhoi sylw amlwg iddo. Er enghraifft, byddwn yn clywed adroddiadau am orbwysedd ac afiechyd ymhlith ieuenctid yn gyson. Hefyd, yn fwy diweddar rydym wedi derbyn adroddiadau am y cysylltiad rhwng diet gwael ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Mewn llawer i Gyngor mae Gwasanaethau Safonau Masnach yr Awdurdod Lleol yn chwarae rhan allweddol yn ymwneud â diet a maeth drwy weithredu yn erbyn labeli sy'n anghywir neu'n anghyflawn tra'n gwneud yn siwr fod y bwyd yn cydymffurfio â safonau cyfansoddol a bod ychwanegion megis halen yn cael eu cadw i lefel sy'n iach a diogel. Gweithiant yn gyson gyda diwydiant i wneud yn siwr fod hysbysebu a hyrwyddiant yr hyn sy'n cael ei werthu yn gywir ac onest.

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn helpu i sicrhau iechyd a gonestrwydd y gadwyn fwyd drwy sicrhau fod anifeiliaid yn rhydd o afiechyd, yn iach ac yn olrheiniadwy cyn eu bod yn cyrraedd y gadwyn fwyd.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn gwella lechyd Cyhoeddus

Mae yna enghreifftiau o waith rhagorol gan Wasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol ym maes Iechyd Cyhoeddus. **Er hynny, mae yna fwy o waith i'w wneud.** Mae angen i Gynghorau ddatblygu ymhellach eu hymwybyddiaeth o agenda newydd iechyd cyhoeddus **a'r cyfraniad allweddol y gall Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol eu gwneud.**

Astudiaeth Achos

Cynhyrchodd Gwasanaeth Safonau Masnach Sir Benfro becyn hyfforddiant ar gyfer busnesau trwyddedig i'w helpu i osgoi gwerthu nwyddau i bobl dan oedran.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

1. Canllaw i dafarnwyr, rheolwyr a pherchnogion
2. Canllaw i weithwyr
3. Posteri
4. Gwybodaeth ar bapur yn esbonio i bobl ifanc sydd wedi ceisio prynu nwyddau rhwystredig pam na chawsant eu gwerthu iddynt

Fe gyflogodd Gwasanaeth Safonau Masnach Sir Benfro berson i ymweld â'r rhan fwyaf o ddeiliaid trwydded gwerthu alcohol yn y

Sir er mwyn eu hyfforddi ar sut i adnabod prynwyr dan oedran a sut i wrthod gwerthiant alcohol iddynt. Dilynwyd hyn gan ymgyrch sylweddol o ddanfon pobl ifanc i geisio prynu nwyddau rhwystredig megis alcohol. Canlyniad yr ymgyrch oedd gostyngiad yn y nifer o fusnesau sy'n dal i werthu i bobl dan oedran - lawr i 12% o'i gymharu â chyfartaledd o 25% led led Cymru.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn lleihau Torcyfraith ac Anrhefn

torcyfraith ac anrhefn

'Amcangyfrir fod cyfanswm cost ariannol troseddu yn erbyn unigolion a phreswylwyr yn 2003/04 tua £36.2bn'
(Swydda Gartref: 2005)

Mae'r papur ar Strategaethau Lleihau Torcyfraith ac Anrhefn Lleol (2005) yn nodi tair rôl allweddol i Wasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol, sy'n gweddu'n uniongyrchol â strategaethau lleihau torcyfraith cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bwriad y rhain oedd:

- atal pobl rhag dioddef troseddau manachol yn eu cartref
- ymyrryd ar fasnachwyr rhag gweithredu yn yr economi anffurfiol
- atal niwed i blant, a phoendod a achosir gan bobl ifanc sydd wedi cael gafael ar nwyddau a rhwystredig

Dyma rai enghreifftiau o droseddau masnachol a ddigwyddodd i bobl yn eu cartrefi:

- masnachwr ffug yn galw'n ddi-rybudd i gynnig nwyddau neu wasanaethau megis gwaith atgyweirio eiddo, gwydro dwbwl neu waith cynnal a chadw yn yr ardd
- cynlluniau gweithio o gartref
- sgamiau loteri
- twyll rhyngrwyd neu drwy'r post
- twyll credyd
- benthyca arian anghyfreithlon
- sgamiau teleffon sy'n defnyddio graddfa premiwm

Mae gan y troseddau hyn ddau beth yn gyffredin: **maent yn targedu'r gwan mewn cymdeithas ac yn aml maent yn cynnwys twyll creulon.**

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn mynd i'r afael â'r holl arferion troseddol yma yn effeithiol, yn aml mewn partneriaeth â'r heddlu lleol.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn lleihau Torcyfraith ac Anrhefn

Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys ymgyrch '*doorstoppers*', yn ogystal â thimoedd sy'n gweithredu yn erbyn benthycwyr arian sy'n codi llogau afresymol o uchel ('loan sharks'), a '*scambuster*'sy'n gwneud gwaith gorfodaeth wedi ei seilio ar wybodaeth gudd.

Cafodd y peilot **'Loan Sharks'** ei gynnal ym Mirmingham a Glasgow a bellach mae'n cael ei ymledu ar draws y Deyrnas Unedig. Ym Mirmingham un unig fe gaeodd y tîm lyfrau benthyg arian gwerth bron i £2 filiwn, arian a fyddai wedi cael ei hawlio oddi wrth rai o bobl dlotaf Canolbarth Lloegr.

Ar hyn o bryd mae tri **thîm '*Scambusters*'** yn y Deyrnas Unedig. Er newydd eu sefydlu, mae'r timoedd yn llwyddiannus dros ben wrth fynd i'r afael â phroblemau megis masnachwyr twyllodrus sy'n croesi ffiniau llywodraeth leol. Mewn un achos diweddar cipiwyd 13,760 o sigarenau anghyfreithlon yn ogystal â 18.2kg o dybaco rowlio â llaw anghyfreithlon gan dîm '*Scambusters*' Gogledd Ddwyrain Lloegr.

Yr economi anffurfiol

Mewn partneriaeth â diwydiant a rheolyddion cenedlaethol megis y Swyddfa Masnachu Teg, mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn delio â cholledion yng nghyllid treth y wlad ynghyg â'r anhegwch a greir gan yr economi anffurfiol. Gall hyn olygu:

- nwyddau ffug (er enghraifft disgiau digidol a dillad)
- ailgyflwyno nwyddau wedi eu dwyn i'r farchnad
- twyll troseddol (er enghraifft troi clociau milltiroedd ceir yn ôl a gwaith atgyweirio anghyfreithlon i eiddo)
- bwyd wedi ei gontamineiddio
- nwyddau peryglus (er enghraifft teganau a thân gwyllt)

Anrhefn Ieuenctid

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol ymhlith ieuenctid yn broblem sy'n cynyddu ac sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl yn y gymuned. **I ddatrys y broblem mae angen i asiantaethau lleol gydweithio.**

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn aml yng nghanol partneriaethau o'r fath ac yn deall sut i ymdrin ag agenda anrhefn ieuenctid

sy'n ymwneud â gwerthiant nwyddau i bobl ifanc dan oedran megis tân gwyllt, cyllyll, alcohol, sigarenau a chwistrellwyr paent.

Enillion o ganlyniad i Droseddu

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn ymwneud fwy â sicrhau fod asedau a enillwyd o ganlyniad i weithgareddau troseddol yn cael eu atafael drwy ddefnyddio defddwriaeth sy'n ymwneud ag enillion drwy drosedd. Mae hyn yn gymorth i rwystro troseddu **drwy ddanfon neges glir i fasnachwyr twyllodrus ac i droseddwyr eraill nad yw troseddu yn talu!** Mae llawer o awdurdodau lleol bellach yn cyflogi swyddogion i wneud gwaith atafael ei hunain neu mewn partneriaeth gyda'r heddlu neu'r Asiantaeth Adfeddiannu Asedau. Ers Ebrill 2006 mae gan gynghorau lleol yr hawl i gadw hyd at drydydd o'r asedau a adfeddiannwyd.

Astudiaeth Achos

Gwasanaeth Safonau Masnach Caerdydd: achos ffugio

Yn 2004, cipiodd Gwasanaeth Safonau Masnach Caerdydd, mewn partneriaeth â Swyddogion y Tollau, 259 o eitemau oddi wrth ddau ddihiryn a oedd yn mewnforio nwyddau ffug o'r Dwyrain Pell.

Plediodd y ddau ddiffynydd yn euog a chawsant eu carcharu am gyfnod o 3 mis o dan y Ddeddf Marciau Masnachol 1994. Ymchwiliodd tîm adfeddiannu asedau rhanbarthol eu cefndir, gan ddarganfod fod y ddau wedi bod ar eu hennill yn sylweddol o ganlyniad i'w gweithgareddau anghyfreithlon.

Yn Awst 2004 gorchmynodd Llys y Goron Caerdydd i'r diffynyddion dalu cyfanswm o £81,500 mewn asedau sylweddoladwy neu wynebu gorchmynion atafaelu a 9 mis ychwanegol yng ngarchar. Cafodd y ddau 12 mis i dalu'r swm.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn diogelu'r amgylchedd

yr amgylchedd

'Mae defnyddiau pacio wedi cynyddu 12% rhwng 1999 a 2005 ac mae bellach yn cyfrif am drydydd o holl wastraff cartref cyffredin' (DEFRA: 2006)

Yr agenda amgylcheddol yw un o'r rhai mwyaf uchel ei phroffil yn wleidyddol ar hyn o bryd. Tra bod llywodraethau a grwpiau rhyngwladol fel y *G8* yn gosod targedau i geisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, **Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol sy'n sicrhau fod materion amgylcheddol yn cael sylw ar lefel leol.**

Gwnaeth y *Stern Report (2006)* nodi tair elfen angenrheidiol mewn polisi ar gyfer ymateb effeithiol i newid yn yr hinsawdd:

- prisio carbon
- polisi technoleg
- effeithiolrwydd ynni

Yn ogystal â chadw llygad ar y niwed a wneir i'r amgylchedd yn gyffredinol, mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn cyfrannu tuag at effeithiolrwydd ynni drwy orfodi'r gyfraith sy'n galluogi defnyddwyr i gymharu effeithiolrwydd ynni mewn nwyddau trydanol ac mewn adeiladau.

Enghreifftiau eraill ble mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol wedi cael effaith ar yr amgylchedd yw:

- rheoli gwastraff mewn defnyddiau pacio
- gorfodi'r rheolaeth ar gynnwys plwm a swlphwr mewn tanwydd
- rheoli gwerthiant paent afiach ac hylifau tebyg
- rheoli gwaredu sgil-gynnyrch anifeiliaid er mwyn rhwystro afiechydon mewn anifeiliaid a'r cyhoedd
- gorfodi gofynion i fusnesau i adnabod peryglon y cemegau maent yn eu gwerthu

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn lleihau Torcyfraith ac Anrhefn

Astudiaeth Achos

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn cymryd camau positif i sicrhau nad yw cwmnïau yn gor-ddefnyddio defnyddiau pacio. Gwnant hyn drwy addysgu busnesau ynglŷn â'r rheoliadau sy'n ymwneud â gwastraff, yn ogystal ag erlyn cwmnïau drwy'r llysoedd os oes angen. Mewn un enghraifft cafodd cwmni ddirwy o £2,000 am or-bacio ei nwyddau. Mewn enghraifft arall defnyddiodd cwmni flwch oedd 14 gwaith yn fwy na'r nwyddau oedd ynddo. Mae rheoli gwastraff pacio yn un ffordd o gyfrannu at dargedau cyngorau lleol sy'n ymwneud â chladdu sbwriel.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn hybu datblygiad economaidd

datblygiad economaidd

‘Pwrpas datblygiad economaidd lleol yw cynyddu maint economi’r ardal leol er mwyn gwella ei dyfodol economaidd ynghyd â gwella ansawdd bywyd i bawb’ (Banc y Byd: 2006)

Mae ffyniant economaidd a datblygu yn elfennau canolig o feddylfryd unrhyw awdurdod lleol. Llunir ac adeiladir economiau lleol o amgylch natur unigol, rhwydwaith a demograffeg ardal. Mae eu llwyddiant yn dylanwadu ar lwyddaint a ffyniant yr economi genedlaethol fel y cyfryw ac yn effeithio ar addysg, iechyd ac ansawdd bywyd yn ein cymunedau lleol.

Mae’n bwysig fod amgylchedd fasnachu gywir yn bodoli i annog, cynnal a meithrin twf busnes.

Mae’r gwaith a wneir gan Wasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn helpu i feithrin amgylchedd o fasnachu teg lle gall busnesau cyfrifol a gonest, sy’n hanfodol i’r economi leol a chenedlaethol, ffynnu. Mae’r prif gyfraniadau yn ymwneud â:

- sicrhau pwysau cywir, mesur, pris a disgrifiadau bwyd, nwyddau a gwasanaethau
- rhoi cyngor i fusnesau ar sut i gydymffurfio â’u hoblygiadau, yn arbennig i Fusnesau Bach a Chanolig (*SME’s*)
- hybu ymarfer da wrth gyflenwi nwyddau a gwasanaethau (gan gynnwys cynlluniau masnachwyr da a theg ac hyfforddiant)
- amddiffyn hawliau eiddo deallusol
- ymateb i achosion o gam-ymddwyn mewn eiddo trwyddedig
- mynd i’r afael â masnachwyr twyllodrus

Mae enghreifftiau o ddelio â masnachwyr twyllodrus wedi cael llawer o sylw ac mae’r cyfryngau yn sôn amdanynt yn aml fel storiau ‘newyddion da’. Eto i gyd, mae’r gwaith a wneir gyda busnes, sy’n hanfodol ar gyfer datblygiad economaidd, yn tueddi i beidio â chael sylw.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn hybu datblygiad economaidd

Perthynas gydag Awdurdod Cartref/Arweiniol a chyngor busnes

Mae'r **Egwyddor Awdurdod Cartref** a gafodd ei ddatblygu a'i fonitro gan 'LACORS' yn sicrhau fod un Gwasanaeth Safonau Masnach Awdurdod Lleol yn cymryd cyfrifoldeb am gynghori a chysylltu gyda busnesau sy'n gweithredu mewn mwy nag un ardal o fewn yr awdurdod lleol. Y brif fantais i awdurdodau lleol ac i fusnesau mawr **yw'r gallu i fonitro a chynnig adborth am gwynion ac i dderbyn cyngor oddi wrth un cyswllt.**

Mae angen i fusnesau newydd, yn enwedig busnesau canolig a bychain, dderbyn cyngor ymarferol a synhwyrol er mwyn sicrhau eu bod yn masnachu'n deg a diogel. Mae darparu'r cyngor hwn yn gynnar yn galluogi'r busnes i gydymffurfio ag obligiadau cyfreithiol yn ogystal â chyfrannu at gynnal y safon o fasnachu yn yr ardal. Gellir gwned hyn yn ystod arolygiadau, mewn ymateb i geisiadau penodol, drwy gyrsiau hyfforddi, gwefannau, taflenni a defnyddiau eraill.

Nid yn unig mewn ardaloedd trefol mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn cefnogi datblygiad economaidd. Mewn ardaloedd gwledig, gall effaith clefydau anifeiliaid fod yn enfawr. Mae llawer ohonom yn cofio'r effaith economaidd a chymdeithasol gafodd clwy'r traed a'r genau yn 2001. Yn fwy diweddar, mae'r ffliw adar wedi bod yn fygythiad. Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan hanfodol drwy geisio sicrhau fod rheolau effeithiol mewn bodolaeth i geisio atal clefydau o'r fath rhag dechrau ac i gyfyngu ar eu hymlediad os digwyddant.

Astudiaeth Achos

Menter newydd yw **Cynllun Masnachwyr Cofrestredig Gwasanaeth Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin** sy'n galluogi trigolion Sir Gaerfyrddin i edrych ar gronfa ddata o fasnachwyr sydd wedi ymrwymo'n ysgrifenedig i fasnachu'n deg ac o fewn deddfwriaeth masnachu teg. Mae'r cynllun yn cynnwys rhestr o arddwyr a gweithwyr sydd wedi cael eu harchwilio gan yr Heddlu. Dechreuwyd y cynllun yma i geisio atal problemau a achoswyd gan fasnachwyr teithiol twyllodrus sy'n achub mantais ar bobl oedrannus. Mae gan y cynllun gysylltiadau agos â'r ymgyrch yn erbyn troseddu ar garreg ddrws defnyddwyr.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn addysgu ac yn ymbweru defnyddwyr

'Oherwydd pwysigrwydd prynu a defnyddio yn ein byd modern, mae'n hanfodol i ddinasyddion prysur heddiw feddu ar sgiliau defnyddwyr da er mwyn cymryd rhan weithredol o fewn cymdeithas.' (Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol: 2006)

Mae marchnadfeydd heddiw yn gymhleth ac yn symyd yn gyflym. Mae siopa dros y rhyngrwyd a siopa gan ddefnyddio credyd wedi ychwanegu at yr angen i siopwyr fod yn wybodus ac i ddeall eu hawliau. Yn 2006 defnyddiodd dros 1.7 miliwn o gwsmeriaid wasanaethau Cyswllt Defnyddwyr er mwyn cael gwybodaeth a chyngor ac yn ddiweddar cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig wrth i'r gwasanaeth dderbyn dros dair miliwn o alwadau. **Gwasanaeth sy'n darparu cyngor i gwsmeriaid dros y ffôn ac ar-lein yw Cyswllt Defnyddwyr ac fe'i gweithredir gan y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) mewn partneriaeth â Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol.**

Mae Cyswllt Defnyddwyr yn cynnig cyngor i gwsmeriaid ynglŷn â'u hawliau statudol a chyfreithiol. Mae materion sydd angen gweithredu gorfodol neu gysylltu gyda masnachwyr, neu'n wir unrhywun sydd angen cymorth pellach, yn cael eu cyfeirio at asiantaethau lleol (gan amlaf at Wasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol) a fydd yn eu cynorthwyo.

Mae addysgu defnyddwyr yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i bobl leol i fedru gwneud penderfyniadau doeth, i ddatrys problemau yn effeithiol ac i chwilio am gymorth a gwybodaeth bellach. Tra gall cyfreithiau a marchnadoedd newid, mae'r sgiliau yma yn galluogi pobl i fod yn ddefnyddwyr effeithiol.

Mae fframwaith Partneriaeth Addysgu Defnyddwyr Cenedlaethol (NCEP) yn nodi canlyniadau dysgu ar gyfer pobl ifanc ac oedolion mewn tair ardal allweddol.

- **Gwerthoedd Defnyddwyr ac Ymddygiad:** cynorthwyo pobl i wneud dewisiadau cyfrifol ac i reoli eu hadnoddau
- **Defnyddwyr yn y Farchnadfa:** cynorthwyo pobl i wneud dewisiadau effeithiol o ganlyniad i ddeall gwybodaeth am y cynnyrch a thechnegau gwerthiant a hysbysebu, yn ogystal â chynorthwyo pobl i ddeall y math o gyngor a gwybodaeth sydd ar gael.
- **Hawliau Defnyddwyr a Chyfrifoldebau:** cynorthwyo pobl i ddeall hawliau a chyfrifoldeabu defnyddwyr a busnes. Hefyd eu cynorthwyo i ddatblygu'r gallu i gyfathrebu eu boddhad neu anfoddhad yn ogystal â magu hyder i geisio am iawndal pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn addysgu ac yn ymbweru defnyddwyr

Astudiaeth Achos (1)

Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Caerffili yn cynnig addysg i bobl ifanc drwy ymgyrchoedd ar y cyd gydag Heddlu Gwent ac ysgolion uwchradd yr ardal. Mae **Diwrnodau Cyffuriau ac Alcohol** yn galluogi y Gwasanaeth Safonau Masnach i sgwrsio'n uniongyrchol gyda disgbyblion ysgolion uwchradd ynglŷn ag oblygiadau iechyd a chymdeithasol camddefnyddio sylweddau. Datblygwyd adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 4 o'r enw **"Wasted!"** fel arf rhyngweithiol sy'n cynnwys dau gynllun gwers ac adnoddau dysgu cefnogol ar werthiant nwyddau rhwystredig i bobl ifanc dan oedran. Galluogodd nawdd o'r Cynulliad Cymreig i bob awdurdod lleol yng Nghymru i gael copïau am ddim i'w dosbarthu mewn ysgolion uwchradd.

Astudiaeth Achos (2)

Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Blaenau Gwent wedi penodi Swyddog Addysg Defnyddwyr ers 2005 ac wedi bod yn cynnig ystod eang o wasanaethau yn ymwneud â Strategaeth Addysg broactif. Un ymgyrch o'r fath yw **"Project Business"** sy'n cael ei redeg gan **"Young Enterprise Wales".** Bwriad yr ymgyrch yw paratoi pobl ifanc ar gyfer gwaith drwy roi cymorth iddynt i sefydlu a rhedeg busnes. Mae'r Swyddog Addysg Defnyddwyr yn ymgymryd â rôl partner busnes gwirfoddol a mentor i dîm o bobl ifanc.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Safonau Masnach wedi bod yn gweithio gyda dwy ysgol - un ohonynt â disgyblion ag angehnion arbennig. Mae'r cwmnïau a ddatblygwyd gan y disgyblion wedi bod yn marchnata nwyddau megis magnedau i'w rhoi ar oergelloedd. Bob blwyddyn bydd yr ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol (Cymru). Ym Mehefin 2007 cydnabuwyd gwaith y Swyddog Addysg Defnyddwyr mewn seremoni wobrwyo pan gafodd ei henwi fel "Cynghorwr Menter a Busnes yr Ifanc Cymru" y flwyddyn.

Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol a blaenoriaethu

Heb os nac oni bai mae Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn cael dylanwad ar amrediad eang o faterion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae adroddiad diweddar *Rogers Review into Priorities for Local Regulatory Services* yn ystyried **masnachu teg, gwerthiant alcohol a iechyd anifeiliaid** fel blaenoriaethau cenedlaethol allweddol ar gyfer Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn Lloegr.

Mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau cenedlaethol a'r blaenoriaethau lleol ynghyd ag anghenion eich ardal leol. Bydd y rhain wrth gwrs yn amrywio'n sylweddol ac yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a daeryddol ac anghenion etholwyr.



Addaswyd o adroddiad y Comisiwn Awdit '*Mesur am Fesur*'

Sefydliadau Defnyddiol

Y Swyddfa Masnachu Teg (‘OFT’) Dyma’r awdurdod sy’n delio â defnyddwyr a chystadlu o fewn y Deyrnas Unedig. Mae’n adran ddi-weinidog o’r llywodraeth a’i rôl yw sicrhau fod marchnadoedd yn gweithio’n dda i gwsmeriaid.
www.oft.gov.uk

Cyswllt Defnyddwyr Gwasaneth ffôn ac ar lein sy’n cynnig cyngor i gwsmeriaid. Gweithredir gan y Swyddfa Masnachu Teg. Cynigir y gwasanaeth gan rwpiau rhanbarthol o Wasanaethau Safonau Masnach. Rhif ffôn y llinell gymorth: 0854 04 05 06 (Saesneg) neu 0854 04 05 05 (Cymraeg). Cyfeiriad gwefan.
www.consumerdirect.gov.uk

C**yd-lynwyr Gwasanaethau Rheoliaethol Awdurdodau Lleol (‘LACORS’)** Mae ‘LACORS’ yn gweithio gyda ac ar ran cymdeithasau llywodraeth leol ar draws y Deyrnas Unedig i gynrychioli, cefnogi a cheisio gwella gwasanaethau rheoliaethol llywodraeth leol (gan gynnwys safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a’r gwasanaeth cofrestru sifil)
www.lacors.gov.uk

Y Sefydliad Safonau Masnach (‘TSI’) yw’r corff sy’n cynrychioli gweithwyr proffesiynol adrannau Safonau Masnach yn y Deyrnas Unedig.
www.tsi.org.uk

Y Swyddfa Gartref
www.homeoffice.gov.uk

Cymunedau a Llywodraeth Leol (‘CLG’)
www.communities.gov.uk

Swyddfa Eiddo Deallusol y Deyrnas Unedig (‘UKIPO’)
www.ipo.gov.uk

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (‘DEFRA’)
www.defra.gov.uk

Sefydliadau Defnyddiol

Gweithgor Iechyd a Diogelwch ('HSE')
www.hse.gov.uk

Asiantaeth Safonau Bwyd ('FSA')
www.food.gov.uk

Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA')
www.fsa.gov.uk

Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform ('BERR')
www.berr.gov.uk

Gweithgor Rheolaeth Well ('BRE')
www.cabinetoffice.gov.uk/regulation

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('WLGA')
www.wlga.gov.uk

Swyddfa Leol Rheolaeth Well ('LBRO')
www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/reform/lbro/index.asp

Cyngor ar bopeth ('CAB')
www.adviceguide.org.uk/CY/wales.htm

Cyngor Defnyddwyr Cymru ('WCC')
www.wales-consumer.org.uk

Safonau Masnach Cymru ('TS Wales')
www.tradingstandardswales.org.uk

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Masnachu Teg
Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu 50% o leiaf
Cod Cynnyrch OFT961w
Argraffiad 11/2007
ⓗ Hawlfraint y Goron 2007